Children in Wales
Plant yng Nghymru

CHAPPIE NETWORK INFORMATION BULLETIN

BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Yn y Rhifyn Yma / In This Issue

KEEP IN MIND

JOB VACANCY

NEW RESOURCES

WHAT ARE YOU DOING FOR CHILD SAFETY WEEK? 20-26 JUNE

SAFETY ALERT: 'PLANKING'

SAFETY ON LEARNER TRANSPORT MEASURE

RESOLUTION ON CHILD INJURY PREVENTION

CHILD ACCIDENT NEWS

RESEARCH

CADWCH MEWN COF

SWYDD WAG

ADNODDIADAU NEWYDD

BETH YDYCH CHI'N EI WNEUD AR GYFER WYTHNOS DIOGNELWCH PLANT? 20-26 MEHEFIN

RHYBUDD DIOGELWCH: 'PLANCIO'

MESUR AR DDIOGELWCH TEITHIO GAN DYSGWYR

PENDERFYNIAD AR ATAL ANAFIADAU PLANT

NEWYDDION AM DDAMWAIN PLANT

YMCHWIL

JUNE 2011/MEHEFIN 2011

Cliciwch yma ar gyfer y fersiwn Gymraeg.

This is the latest edition of the Child Accident Prevention Practice and Information Exchange Network Information Bulletin prepared by Children in Wales. It contains the latest news, research and reports from the field of Child Accident Prevention.

If you do not wish to receive this occasional e-briefing, please let us know by emailing info@childreninwales.org.uk

If you feel your colleagues would benefit from this information, please forward.

KEEP IN MIND

KEEP IN MIND

K.I.M (Keep In Mind) - A Home Safety Aide Memoire

Children in Wales has developed this bilingual aide memoire to help practitioners understand and reduce those home accidents that most commonly cause serious, fatal and disabling injuries in children under the age of 5 years.

Developed in conjunction with Health Visitors, K.I.M has been designed to raise the issues, promote discussion and give short, easy to remember accident prevention advice.

K.I.M. is available to buy from as little as £29.50 for 50 glossy, durable leaflets or as a free download. For an order form or to access the free download, please visit the Children in Wales website.

JOB VACANCY

Home Safety Development Officer
18.5 hours p/wk; £24,646 - £26,276 p.a. pro rata
Location: Tonypandy, RCT
Contract: Fixed Term until March 2013

Cysylltiadau / Links

CHAPPIE Network Webpage

The aim of this post is to reduce the number of fatal, serious and disabling home accidents affecting those most at risk - children and older people. Working for Home Accident Prevention (HAP) Wales the development officer will work with a variety of organisations, including Registered Social Landlords. The role will influence both local and national housing policies, inform changes and priorities and raise awareness of effective accident interventions within the home environment. The post is based in Tonypandy, but has a National remit. Secondment opportunities are available.

Closing Date: 16 June 2011
Interviews for this post will be held on 27 June 2011

Introduction letter
Person specification
Job description
Application form
Information about filling in the form
Disclosure form
HAPW Strategy document

For more information please CLICK HERE

NEW RESOURCES

Small Steps to Safety DVD

Health Challenge Caerphilly and the New Tredegar and Fochriw Communities First Partnerships have launched an educational child safety DVD focusing on accidents in the home.

Local playgroups and residents have been involved in the filming for that 'more real touch'. Advice and guidance was provided by Children in wales. From starting as a small local project, the DVD is now being distributed to families living in Caerphilly, Newport, Blaenau Gwent, Monmouthshire and Torfaen.

Copies of the DVD are available to purchase at £1.50 each. For more information, please contact Sian Wolfe-Williams, Health Challenge Caerphilly Co-ordinator on 01495 235401 or wolfes@caerphilly.gov.uk.

New Bilingual Resources for Home Safety

Children in Wales have developed a free bilingual session plan to enable practitioners to deliver falls prevention information to parents within a community setting. Addressing falls in children aged between 0-5 years, this useful resource comes complete with handouts, session plan and quiz and is free to download and use.

To find out more CLICK HERE

WHAT ARE YOU DOING FOR CHILD SAFETY WEEK? 20-26 JUNE 2011

Child Safety Week is the Child Accident Prevention Trust's (CAPT) annual flagship community education campaign. It aims to raise awareness of the number of accidents that seriously injure or kill children every year and the steps we can take to help prevent them.

CAPT have developed resources to help you deliver accident prevention in your area. For further information, advice and resources, please CLICK HERE

SAFETY ALERT: 'PLANKING'

A man has died in Australia after taking part in the internet phenomenon of planking. Planking is a prank that involves lying face down in a public place, with photos posted on social networking sites. Planking was invented originally in Somerset and later emerged in Australia.The man's death comes in the same week that police served a trespass notice on a man caught planking on a squad car. It is feared, having become popular on the internet, more injuries and death amongst young people may follow.

Read the full story on the bbc news site
Youtube: Planking

SAFETY ON LEARNER TRANSPORT MEASURE

Safety on Learner Transport (Wales) Measure 2011

On the 10 May 2011 the Safety on Learner Transport (Wales) Measure received Royal Assent. The Measure has 2 key aims: to continue to improve the safety image and quality of contracted school transport, and to ensure that safety standards are sufficiently high for parents and pupils to have confidence in school transport.

RESOLUTION ON CHILD INJURY PREVENTION

The Sixty-fourth World Health Assembly has adopted a resolution on child injury prevention, the first ever on the topic. The resolution, spurred by the WHO/UNICEF *World report on child injury prevention*, provides a platform to support action on preventing child injuries, which are the leading cause of death for children over the age of 5 years. More than 830,000 children die each year from road traffic crashes, drowning, burns, falls and poisoning.

More information:

World report on child injury prevention
European report on child injury prevention
Europe Child Safety Alliance

CHILD ACCIDENT NEWS

26/04/11 Zip Wire death
Bailey Sumner, from Blackpool, was flown to hospital after falling at GreenWood Forest Park Centre at Y Felinheli on Sunday but later died.

25/05/11Two-year-old hurt in road accident
A two-year-old boy was seriously injured when he was hit by a van in Shropshire.

24/05/11 Children taken to A&E with 'routine complaints'
A study has found that the number of "under-15s attending casualty with routine medical complaints has increased by 42% over past decade.

31/03/11 Children's deaths in house fire caused by cigarette
The deaths of three children in a house fire in Bridlington, East Yorkshire, probably caused by a discarded cigarette, were accidental, a coroner has ruled.

24/05/11 Choking: 'I thought she was dying'
When her daughter started choking, the terrifying few minutes that followed showed Kate Hilpern just how unprepared we are for this common emergency.

11/05/11 Girl hurt in bus collision
A 16-year-old girl has been taken to hospital after she was in collision with a bus outside Ysgol Syr Hugh Owen in Caernarfon.

07/04/11 Road Safety cash success
A school has secured £345,000 in road safety improvements after a pupil sent a plea to council officials.

RESEARCH

Adolescent, and their parents, attitudes towards graduated driver licensing and subsequent risky driving and crashes in young adulthood
Although Graduated Driver Licensing Systems (GDLS) have helped reduce young driver crash rates, they remain significantly over-represented in crash statistics. This study examined the relationship between attitudes of young adults and their parents to GDLS at different ages, and self-reported risky driving behavior and crash involvement.

Home Exercise Equipment-Related Injuries Among Children in the United States
This study investigated home exercise equipment-related injuries to

children in the United States. Data from the National Electronic Injury Surveillance System were analyzed for children 18 years old and younger.

Neighborhood-level built environment and social characteristics associated with serious childhood motor vehicle occupant injuries
This study examined the effect of residential neighbourhood characteristics on a child's risk of serious motor vehicle traffic occupant injuries in New York State, USA, for the years 1993-2003, with particular focus on the effect of neighborhood walkability.

Epidemiology and Profile of Pediatric Burns in a Large Referral Center
This was a study into burn injury patterns, to generate age-specific and injury-specific prevention strategies to reduce these injuries.

Preventing unintentional injuries in children and young people under 15
This paper provides an overview of the guidance that The National Institute of Health and Clinical Excellence (NICE) has published on strategies to prevent unintentional injuries among children and young people under 15.

Distracted walking: Cell phones increase injury risk for college pedestrians
This study examined whether pedestrians, in particular college students, would display riskier behavior when distracted by a naturalistic cell phone conversation than when undistracted.

Home and Consumer Product Safety
This article describes a Healthy Homes initiative to address hazards to children, in a coordinated fashion in the home.

Post-traumatic Stress and Behavior Problems in Infants and Toddlers With Burns
This study assessed post traumatic stress disorder (PTSD) and behavior problems in young children with burns and examined individual, injury-related, and family-related determinants.

Striking a Balance Between Risk and Protection: Fathers' Attitudes and Practices Toward Child Injury Prevention
This study examined fathers' attitudes, decisions, and practices regarding the level of risk they are willing to expose their children to and the level of protection they feel is necessary.

Harnessing Social Media for Health Promotion and Behavior Change
This article summarises current evidence and understanding of using social media for health promotion.

BWLETIN GWYBODAETH RHWYDWAITH CHAPPIE

Hwn yw'r rhifyn diweddaraf o Fwletin Gwybodaeth y Rhwydwaith Cyfnewid Arferion a Gwybodaeth am Atal Damweiniau i Blant (CHAPPIE), a baratowyd gan Plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys y newyddion, ymchwil a'r adroddiadau diweddaraf o faes Atal Damweiniau i Blant.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-gyfarwyddiad achlysurol hwn, gadewch inni wybod, os gwelwch yn dda, drwy e-bostio i info@plantyngnghymru.org.uk

Os ydych yn teimlo y byddai'ch cydweithwyr yn elwa o'r wybodaeth hon, cofiwch ei hanfon ymlaen.

CADWCH MEWN COF

C.M.C (Cadwch Mewn Cof) - Taflen Atgoffa am Ddiogelwch Gartref

Mae Plant yng Nghymru wedi datblygu'r daflen atgoffa ddwyieithog hon i helpu ymarferwyr i ddeall a lleihau'r damweiniau hynny yn y cartref sy'n achosion mwyaf cyffredin anafiadau marwol, difrifol ac anablu ymhlith plant dan 5 oed.
Mae C.M.C., a gafodd ei datblygu ar y cyd ag Ymwelwyr Iechyd, wedi cael ei dylunio i godi'r ystyriaethau, hybu trafodaeth a rhoi cyngor cryno, hawdd ei gofio am atal damweiniau.

Mae C.M.C. ar gael i'w prynu am gyn lleied â £29.50 am 50 o daflenni sgleiniog, gwydn neu am ddim i'w lawrlwytho. I gael ffurflen archebu neu i fanteisio ar y lawrlwythiad rhad ac am ddim, ewch i wefan Plant yng Nghymru.

SWYDD WAG

Swyddog Datblygu Diogelwch y Cartref
18.5 awr yr wythnos; £24,646 - £26,276 p.a. pro rata
Lleoliad: Tonypandy, RCT
Contract: Tymor Penodedig tan Fawrth 2013

Nod y swydd hon yw lleihau nifer y damweiniau marwol, difrifol ac anablu yn y cartref sy'n effeithio ar y sawl sy'n wynebu'r risg mwyaf, sef plant a phobl hyn. Gan weithio i Atal Damweiniau Cartref (HAP) Cymru, bydd y swyddog datblygu yn gweithio gydag amrediad o gyrff, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Bydd y rôl yn dylanwadu ar bolisïau tai lleol a chenedlaethol, yn llywio newidiadau a blaenoriaethau ac yn codi ymwybyddiaeth o ymyriadau effeithiol i atal damweiniau o fewn amgylchedd y cartref. Seilir y swydd yn Nhonypandy, ond mae'r cylch gorchwyl yn un cenedlaethol. Mae cyfleoedd am secondiad ar gael.

Dyddiad Cau: 16 Mehefin 2011
Cyfwelir cyfweliadau am y swydd hon ar 27 Mehefin 2011

Llythyr cyflwyno
Manyleb berson
Disgrifiad swydd
Ffurflen gais
gwybodaeth am lenwi'r ffurflen
Ffurflen ddatgelu
Dogfen strategaeth HAPW

ADNODDAU NEWYDD

DVD Camau Bach i Ddiogelwch

Mae Her Iechyd Caerffili a Phartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf Tredegar Newydd a Fochriw wedi lansio DVD addysgol am ddiogelwch plant sy'n canolbwyntio ar ddamweiniau yn y cartref.

Mae cylchoedd chwarae a thrigolion lleol wedi cymryd rhan mewn ffilmio er mwyn cyflawni'r 'golwg mwy real' yna. Cafodd cyngor ac arweiniad eu rhoi gan Blant yng Nghymru. Wedi dechrau'n brosiect bach lleol, erbyn hyn mae'r DVD yn cael ei ddosbarthu i deuluoedd sy'n byw yng Nghaerffili, Casnewydd, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.

Mae copïau o'r DVD ar gael i'w prynu am £1.50 yr un. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Siân Wolfe-Williams, Cydlynydd Her Iechyd Caerffili ar 01495 235401 neu wolfes@caerphilly.gov.uk.

Adnoddau Dwyieithog Newydd am Ddiogelwch Cartref

Mae Plant yng Nghymru wedi datblygu cynllun sesiwn dwyieithog am ddim i alluogi ymarferwyr i roi gwybodaeth am atal codymau i rieni o fewn cyd-destun cymunedol.

Gan drafod codymau plant rhwng 0-5 mlwydd oed, mae'r adnodd defnyddiol hwn yn cael ei ategu gan daflenni i'w dosbarthu, cynllun sesiwn a chwis ac mae'n rhad ac am ddim i'w lawrlwytho a'i ddefnyddio. I ddysgu mwy CLICIWCH YMA.

BETH YDYCH CHI'N EI WNEUD AR GYFER WYTHNOS DIOGELWCH PLANT? 20-26 MEHEFIN

Wythnos Diogelwch Plant yw prif ymgyrch addysg gymunedol flynyddol yr Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau Plant (CAPT).

Ei nod yw codi ymwybyddiaeth o nifer y damweiniau sy'n anafu plant yn ddifrifol neu'n eu lladd bob blwyddyn a'r camau y gallwn eu cymryd i'w hatal.

Mae CAPT wedi datblygu adnoddau i'ch helpu i gyflawni atal damweiniau yn eich ardal chi. Am ragor o wybodaeth, cyngor ac adnoddau, CLICIWCH YMA.

RHYBUDD DIOGELWCH: 'PLANCIO'

Mae dyn wedi marw yn Awstralia ar ôl cymryd rhan yn ffenomen y rhyngrwyd plancio. Mae plancio yn gast sy'n golygu gorwedd wyneb i lawr mewn man cyhoeddus, gan bostio lluniau ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Cafodd plancio ei ddyfeisio'n wreiddiol yng Ngwlad yr Haf a daeth i'r amlwg wedi hynny yn Awstralia.
Daw marwolaeth y dyn yn yr un wythnos y rhoddodd yr heddlu rybudd tresmasu i ddyn a ddaliwyd yn plancio ar gar yr heddlu.

Wedi dod yn boblogaidd ar y we, yr ofn yw y gall mwy o anafiadau a marwolaethau ymhlith pobl ifanc ddilyn.

Darllenwch y stori lawn ar wefan newyddion y bbc
Youtube: Plancio

MESUR DIOGELWCH AR GLUDIANT DYSGWYR

Mesur Diogelwch ar Gludiant Dysgwyr (Cymru) 2011

Ar 10 Mai 2011 derbyniodd y Mesur Diogelwch ar Gludiant Dysgwyr (Cymru) y Cydsyniad Brenhinol. Mae gan y Mesur 2 nod pennaf sef: parhau i'w ella delwedd diogelwch ac ansawdd cludiant ysgol dan gontract, a sicrhau bod safonau diogelwch yn ddigon uchel i rieni a disgyblion ymddiried yng nghludiant ysgol.

PENDERFYNIAD AR ATAL ANAFIADAU PLANT

Mae Chwedeg Pedwerydd Cynulliad Iechyd y Byd wedi mabwysiadu penderfyniad ynghylch atal anafiadau plant, yr un cyntaf erioed ar y pwnc. Mae'r penderfyniad, a sbardunwyd gan adroddiad WHO/UNICEF *World report on child injury prevention*, yn cynnig llwyfan i gefnogi camau i atal anafiadau plant, sy'n achos pennaf marwolaeth i blant dros 5 mlwydd oed. Mae mwy nag 830,000 o blant yn marw bob blwyddyn o wrthdrawiadau traffig y ffordd, boddi, llosgiadau a gwenwyno.

Rhagor o wybodaeth:

Adroddiad byd-eang ar atal anafiadau plant
Adroddiad Ewropeaidd ar atal anafiadau plant
Cynghrair Diogelwch Plant Ewrop

NEWYDDION AM DDAMWAIN PLANT

26/04/11 Marwolaeth Gwifren Sip
Cafodd Bailey Sumner, o Blackpool, ei hedfan i ysbyty ar ôl cwympo yng Nghanolfan Parc Coedwig GreenWood yn y Felinheli ddydd Sul ond bu farw'n ddiweddarach.

25/05/11 Anafu bachgen dwy oed mewn damwain ffordd
Cafodd bachgen dwy flwydd oed ei anafu'n ddifrifol pan gafodd ei daro

gan fan yn Sir Amwythig.

24/05/11 Mynd â phlant i A&E gydag 'anhwylderau cyffredin'
Mae astudiaeth wedi darganfod bod nifer y plant dan 15 oed sy'n mynychu adrannau damweiniau gydag anhwylderau meddygol cyffredin wedi codi 42% yn ystod y degawd diwethaf.

31/03/11 Marw plant mewn tân cartref a achoswyd gan sigarét
Roedd marwolaethau tri o blant mewn tân mewn ty yn Bridlington, Dwyrain Swydd Efrog, a achoswyd yn fwy na thebyg gan sigaret a oedd wedi ei daflu i ffwrdd, yn ddamweiniol, yn ôl dyfarniad crwner.

24/05/11 Tagu: 'Rôn i'n meddwl ei bod hi'n marw'
Pan ddechreuodd ei merch hi i dagu, dangosodd yr ychydig funudau brawychus a ddilynodd i Kate Hilpern ba mor amharod rydym ni am yr argyfwng cyffredin hwn.

11/05/11 Merch yn cael ei hanafu mewn gwrthdrawiad â bws
Mae merch 16 oed wedi cael ei chymryd i' ysbyty ar ôl bod mewn gwrthdrawiad â bws tu allan i Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaerfyrddin.

07/04/11 Llwyddiant arian am Ddiogelwch y Ffordd
Mae ysgol wedi sicrhau £345,000 mewn gwelliannau i ddiogelwch y ffordd ar ôl i ddisgybl anfon ple at swyddogion y cyngor.

YMCHWIL

Agweddau pobl ifanc, a'u rhieni, at drwyddedu graddedig gyrwyr a gyrru peryglus a gwthdrawiadau canlyniadaol mewn oedolion ifanc
Er bod Systemau Graddedig Trwyddedu Gyrwyr wedi helpu i leihau cyfraddau gwrthdrawiadau gyrwyr ifanc, maent yn dal i gael eu gorgynrychioli'n sylweddol mewn ystadegau am wrthdrawiadau. Edrychodd yr astudiaeth hon ar y berthynas rhwng agweddau oedolion ifanc a'u rhieni at y Systemau hyn ar wahanol oedrannau, ac ymddygiad gyrru peryglus a rhan mewn gwrthdrawiad a hunan-adroddir.

Anafiadau sy'n Gysylltiedig ag Offer Ymarfer Cartref Ymhlith Plant yn yr Unol Daleithiau
Edrychodd yr astudiaeth hon anafiadau i blant sy'n deillio o offer ymarfer cartref yn yr Unol Daleithiau. Cafodd data eu dadansoddi o'r System Genedlaethol Goruchwylio Anaf Electronig i blant 18 mlwydd oed ac yn iau.

Nodweddion yr amgylchedd adeiledig a chymdeithasol ar lefel cymdogaeth sy'n gysylltiedig ag anafiadau difrifol i blant sy'n teithio mewn cerbydau modur
Edrychodd yr astudiaeth hon ar effaith nodweddion cymdogaethau preswyl ar risg plentyn o anafiadau difrifol fel teithiwr mewn cerbyd modur yn Nhalaith Efrog Newydd, UDA, am y blynyddoedd 1993-2003, gyda ffocws arbennig ar effaith gallu cerdded yn y gymdogaeth.

Epidemioleg a Phroffil Llosgiadau Pediatrig mewn Canolfan Gyfeirio Fawr

Astudiaeth oedd hon i batrymau anafiadau llosgi, er mwyn creu strategaethau atal sy'n benodol i oedran ac anaf er mwyn lleihau'r anafiadau hyn.

Atal anafiadau anfwriadol ymhlith plant a phobl ifanc dan 15 oed
Mae'r papur hwn yn cynnig trosolwg o'r canllawiau sydd wedi eu cyhoeddi gan y Sefydliad Cenedlaethol Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ar strategaethau i atal anafiadau anfwriadol ymhlith plant a phobl ifanc o dan 15 oed.

Cerdded wedi eich gwrthdynnu: Ffonau symudol yn cynyddu'r risg o anaf i gerddwyr coleg
Edrychodd yr astudiaeth hon ar a fyddai cerddwyr, yn enwedig myfyrwyr coleg, yn arddangos ymddygiad mwy peryglus pan oedd eu sylw wedi cael ei dynnu gan sgwrs ffôn symudol naturiolaidd na phan oeddent heb eu gwrthdynnu.

Diogelwch Cynhyrchion i'r Cartref a'r Defnyddiwr
Mae'r erthygl hon yn disgrifio menter Cartrefi Iach i fynd i'r afael â pheryglon i blant, mewn ffordd gydlynus yn y cartref.

Straen Wedi Trawma a Phroblemau Ymddygiad Mewn Babanod a Phlant Bach â Llosgiadau
Asesodd yr astudiaeth hon anhwylder straen wedi trawma a phroblemau ymddygiad mewn plant ifanc â llosgiadau gan edrych ar benderfynynnau unigol, rhai cysylltiedig â'r anaf, a rai cysylltiedig â'r teulu.

Taro Cydbwysedd rhwng Risg ac Amddiffyn: Agweddau ac Arferion Tadau Tuag at Atal Anafiadau i Blant
Edrychodd yr astudiaeth hon ar agweddau, penderfyniadau ac arferion tadau mewn perthynas â lefel y risg maent yn fodlon datguddio eu plant iddo a lefel yr amddiffyniad maent yn teimlo bod ei angen.

Harneisio Cyfryngau Cymdeithasol i Hybu Iechyd a Newid Ymddygiad
Mae'r erthygl hon yn crynhoi'r dystiolaeth a'r ddealltwriaeth bresennol o ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hybu iechyd.

Thank you,

Diolch,

Karen McFarlane

Development Officer: Child Safety
Swyddog Datblygu: Diogelwch Plant

If you would like to join the CHAPPIE network, please **click here.**

Os hoffech ymuno â'r Rhwydwaith CHAPPIE, **cliciwch yma**.

Forward email

SafeUnsubscribe

Trusted Email from Constant Contact FREE
Try it FREE today.

This email was sent to info@childreninwales.org.uk by info@childreninwales.org.uk | Update Profile/Email Address | Instant removal with SafeUnsubscribe™ | Privacy Policy.
Children in Wales | 25 Windsor place | Cardiff | CF10 3BZ | null